REES, DANIEL (1855 - 1931), newyddiadurwr

Enw: Daniel Rees
Dyddiad geni: 1855
Dyddiad marw: 1931
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yn sir Benfro, 1855. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Brynconin a Choleg Owens, Manceinion. Dechreuodd ar ei yrfa fel newyddiadurwr yn Warrington, a bu wedi hynny ar staff y *Chester Chronicle* yn Crewe. Wedyn aeth i Gaernarfon fel golygydd a rheolwr *Yr Herald Cymraeg* a'r *Caernarvon and Denbigh Herald*. Yn 1907 ymunodd ag adran ystadegau'r Bwrdd Masnach; ymneilltuodd tua 1922. Yn ystod y tymor y bu yng Nghaernarfon bu yn newyddiadurwr dylanwadol ar yr ochr Ryddfrydol, gan ddangos llawer o ddewrder ac annibyniaeth. Cefnogodd y gweithwyr adeg streic chwarel y Penrhyn, a gwrthwynebodd ryfel De Affrica. Yr oedd yn ieithydd da a chymerai ddiddordeb arbennig yng ngwaith Dante. Yn 1903 cyhoeddwyd ei gyfieithiad o *Divina Commedia* Dante i Gymraeg, *Dwyfol Gân Dante*, ac yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd drama Saesneg, *Dante and Beatrice*, ganddo ef a T. Gwynn Jones, a oedd ar y pryd yn aelod o staff *Yr Herald*. Bu farw yn S. Mary's Cray, Caint, 8 Tachwedd 1931, a chladdwyd ef yn S. Paul's Cray.

Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Ffynonellau

Carnarvon and Denbigh Herald, 13 Tachwedd 1931

T. Gwynn Jones, *Cymeriadau* (Wrecsam 1933), 119-27

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73641898

Wikidata: Q20732781

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Humphreys, E. M., (1953). REES, DANIEL (1855 - 1931), newyddiadurwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 17 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-DAN-1855

Copïo'r cliptrwyd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government